

TASG 1 : DADANSODDI / TRAFOD

Mae'n amlwg bod y bachgen yn y gerdd yn awyddus iawn i blesio'i dad.

- a) Pam y tybiwch ei fod mor awyddus i wneud hynny?
- b) Pa esiamplau o ymdrechion y bachgen i blesio sydd yn y gerdd?

TASG 2 : DADANSODDI / TRAFOD

Nid yw'r pennill olaf yn esbonio pam mae'r bachgen 'ar ei ben ei hun' yn y parc. A oes unrhyw awgrymiadau yn gynharach yn y gerdd pam mai dyma'r sefyllfa? Neu, a oes gennych chi unrhyw esboniadau posib? Yn eich atebion, ceisiwch gyfuno dychymyg a thystiolaeth.

TASG 3 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch fod y bachgen yn mynd adref o'r parc yn ddigalon. Ar ei gyfrifiadur mae neges e-bost gan ei dad yn esbonio'i absenoldeb.

Ysgrifennwch y neges e-bost honno (100 o eiriau) ac wrth gynnig eich esboniad, ceisiwch hefyd awgrymu pa fath o berthynas sydd rhwng y tad a'r mab.

TASG 4 : YSGRIFENNU

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Dychmygwch fod y bachgen yn cadw dyddiadur cyfrinachol. Yn y dyddiadur hwnnw mae'n storio'i feddyliau mwyaf personol a phreifat.

Ysgrifennwch ei gofnod dyddiadur ar gyfer y diwrnod siomedig hwn yn ei hanes.

TASG 1 : DADANSODDI / TRAFOD

Mae'r englyn yn sôn yn llythrennol am adar yn adeiladu nyth – pâr o gariadon yn penderfynu byw gyda'i gilydd a dechrau teulu. Ond mae trosiad yma hefyd.

Trafodwch, felly, i ba raddau y gallai'r englyn 'Y Nyth' hefyd fod yn englyn am bobl, nid dim ond yn englyn am adar?

TASG 2 : LLAFAR

Dysgwch yr englyn ar eich cof. Gwnewch hyn gyda phartner.

- Dechreuwch drwy ei gyd-lefaru gyda chopi o'ch blaen.
- Yna cydlearwch yr englyn gyda un o'r ddau ohonoch yn edrych ar y copi a'r llall yn edrych i ffwrdd.
- Yna cydlearwch gan newid pwy sy'n edrych ar y copi a phwy sy'n edrych i ffwrdd.
- Yna cydlearwch gyda'r ddau ohonoch yn edrych ar y copi unwaith eto.
- Yna cydlearwch gyda'r ddau ohonoch yn edrych i ffwrdd o'r copi.
- Yna llefarwch yr englyn yn unigol, un ar ôl y llall!

Os yw hyn yn ormod i chi, dechreuwch gyda'r ddwy linell gyntaf i gychwyn, gan ddilyn yr un drefn ag uchod. Wedyn gwnewch yr un peth gyda'r ddwy linell olaf. Wedyn rhowch nhw at ei gilydd.

TASG 3 : CREADIGOL

Petasech chi'n cael cyfle i enwi neu ailenwi'r tŷ/tai rydych yn byw ynddo/ynddyn nhw nawr, beth ddewisoch chi? Gwnewch restr fer o bosibiliadau. Meddyliwch am enwau doniol posib, yn ogystal ag am rai a fyddai'n gweddu i'r dim.

Ac wedi gwneud hynny, meddyliwch am enwau newydd posib i'ch ysgol ...

TASG 4 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Lluniwch bennill addas i'r roi mewn cerdyn cyfarch i rywun sy'n symud i dŷ newydd. Gorau oll os yw'n bennill pedair llinell.

TASG 1 : TRAFOD

Mewn parau, trafodwch i ba raddau y byddai'r deg gorchymyn yn wahanol petasai'r bardd wedi penderfynu ysgrifennu 'Cyngor brawd mawr i frawd bach sy'n dechrau ysgol uwchradd'.

TASG 2 : DADANSODDI

Cyhoeddwyd y gerdd hon yn 2005.

- a) Pa gynghorion a roddwyd bryd hynny sydd yn parhau'n berthnasol heddiw?
- b) Pam, felly, nad yw'r lleill yn parhau'n berthnasol?

TASG 3 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

- a) Lluniwch eich deg gorchymyn personol chi ar gyfer brawd neu chwaer sydd ar fin dechrau yn eich ysgol uwchradd chi. Ceisiwch fod mor ddifyr a bachog ag sy'n bosib.
- b) Lluniwch boster atyniadol o'r gorchymynion a luniwyd gennych ar gyfer tasg (a).

TASG 1 : TRAFOD / PARAU

- a) Mewn parau, trafodwch ba fath o bethau sydd yn eich cadw chi ar ddiun yn y nos.
- b) Ceisiwch ddyfalu pam fod y bachgen yn y gerdd wedi codi yn y nos a pha fath o gwestiynau y mae'n holi i'w fam.

TASG 2 : DADANSODDI

Beth, dybiwch chi, sy'n mynd drwy feddwl y fam wrth iddi eistedd gyda'i mab ar y grisiau yn 'brathu/ewin o leuad'?

TASG 3 : YMCHWILIO

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Bu'r penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd yn un o benderfyniadau gwleidyddol mwyaf ein hoes ni. Ymchwiliwch i hanes yr Undeb Ewropeaidd er mwyn darganfod:

- Pryd y sefydlwyd hi a chan bwy?
- Pam y sefydlwyd hi?
- Pryd ymunodd y Deyrnas Unedig â'r Undeb, a pham?

TASG 4 : YSGRIFENNU (MYNEGI BARN)

Lluniwch araith fer (250 o eiriau) i geisio perswadio eich cyd-ddisgyblion fod Brexit naill ai (a) yn gam ymlaen i Gymru neu (b) yn gam yn ôl i Gymru.

TASG 1 : PERFFORMIAD

- a) Mewn parau, trafodwch pam fod gan y bachgen 'hiraeth am yr afon *heno*'.
- b) Ceisiwch ddyfalu beth yw union amgylchiadau'r 'heno' hwn.

TASG 2 : YMCHWILIO

Taflen unigol i'w lawrlwytho

Mae pysgota'n gamp boblogaidd iawn, ond nid yw at ddant pawb.

Ysgrifennwch ddwy restr, un yn nodi pump o bethau sydd o blaid pysgota fel camp, a phump o bethau sydd yn ei herbyn.

TASG 3 : CREADIGOL

Taflen unigol i'w lawrlwytho

- a) Ceisiwch ddwyn i gof un o'ch hoff atgofion plentyndod chi sydd yn gysylltiedig ag afon neu â glan y môr, y math o brofiad pan oedd 'diwrnod cyfan yn mynd fel eiliadau'.
- b) Trowch yr atgof hwnnw yn gerdd fer gan geisio cadw'r llinellau yr un hyd â'i gilydd a chan anelu at ddisgrifiadau byw a bachog, nid dim ond rhestr o ddigwyddiadau. (12 llinell)

CYMORTH HAWDD: Er mwyn dod â'r atgof yn fyw i'r darllenydd, cofiwch ddefnyddio'r synhwyrau wrth ddisgrifio, ynghyd â defnyddio cyffelybiaethau/cymhariaethau, trosiadau a chyflythrennu.